






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grwp Cynggori Technegol

Cynigiwyd gan yr is-grŵp
plant ac ysgolion

7 Gorffennaf 2020



Cyngor y Grŵp Cyngori Technegol ar ddychwelyd i’r ysgol

Cynigiwyd gan yr is-grŵp plant ac ysgolion ar 7 Gorffennaf 2020

Argymhelliad:

Mae Grŵp Cyngori Technegol Cymru yn argymhell y dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu staff a phlant, gan gynnwys:

- Rhaglen olrhain cysylltiadau gyda’r nod o olrhain tua 80% o gysylltiadau, 35% ohonynt o fewn 24 awr¹.
- Dylai pob ysgol fod mor ddiogel rhag COVID-19 ag y gellir bod, wedi cynnal asesiad o’r risgiau a’u lleihau drwy gyfuniad o reolaethau megis cadw pellter, hylendid dwylo ac arwynebau, systemau un ffordd ac ati, yn unol â hierarchaeth rheoli peryglon a’r canllawiau arfer gorau.
- Os daw gwybodaeth i law bod yna achos o’r feirws yn lleol, yna dylai’r ysgolion cyfagos weithredu mesurau priodol.
- Dylai’r paratodau ar gyfer gallu addysgu hyd at 100% o’r plant o bell fod yn eu lle bob amser, rhag ofn bydd angen gwneud hynny.

Ystyriaethau:

Mae’n hanfodol cadw llygad ar y cydbwysedd rhwng budd dychwelyd i’r ysgol o ran lles cyffredinol plant a’r baich sydd ynghlwm wrth hynny, a dyna fydd sail penderfyniadau ynghylch pa fesurau i’w llacio gyntaf.

O ystyried cyfraddau’r feirws a’i ledaeniad ar hyn o bryd, mae yna rywfaint o le i lacio mesurau cadw pellter cymdeithasol/trefnu grwpiau. Mae yna risg wirioneddol y bydd angen ailosod cyfyngiadau ar ysgolion a chymdeithas. Mae angen mynd ati nawr i flaenoriaethu i sicrhau bod ysgolion yn llwyddo i ailagor yn ddiogel ym mis Medi.

Bydd monitro’r wythnosau nesaf mewn ysgolion gyda’r bwriad o nodi’r problemau posibl yn help wrth gynllunio ar gyfer mis Medi. Mae hyn yn gyfle i fagu hyder/arddangos y prosesau sydd yn eu lle.

¹ Papur modelu is-grŵp SPI-M SAGE 22 Mehefin 2020

Crynodeb o’r dystiolaeth:

1. Plant o dan 18 oed yw 22-25% o’r boblogaeth, ond mae’r ystadegau yn dangos yn gyson ym mhob gwlad eu bod yn <2% o gyfanswm yr achosion o COVID-19.²
2. I bob golwg, mae haint SARS-CoV-2 yn effeithio ar blant lawer yn llai nag oedolion: symptomau ysgafn a welir mewn plant, os o gwbl, ac ychydig iawn sy’n datblygu problemau difrifol neu sy’n peryglu eu bywyd³.
3. Mae yna rywfaifaint o ansicrwydd yn parhau ynghylch i ba raddau y mae plant yn trosglwyddo’r clefyd, ond o arsylwi’r hyn sy’n digwydd mewn ysgolion yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill, ymddengys nad yw plant yn ei drosglwyddo ryw lawer⁴.
4. Mae astudiaethau yn Sbaen⁵ o lefelau’r feirws yn y boblogaeth yn dangos bod ymateb gwrthgyrff ymhlith plant fel pe bai’n is nag ymhlith oedolion (<3.1% mewn plant o dan 10 o gymharu â 5% ar gyfartaledd mewn oedolion). Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg yn dangos lefelau cyfyngedig o drosglwyddo’r feirws o un plentyn i’r llall, ond awgrymir bod y rhan fwyaf o achosion ymhlith plant yn cael eu trosglwyddo gan oedolion yn eu cartref⁶. Mae hyn yn gydnaws â’r lefelau isel iawn o blant sy’n achosion cyfeirio.
5. Ymddengys bod y lefelau trosglwyddo ymhlith plant o dan 12 oed yn arbennig o isel, ac ar sail hyn teimlwn y gallwn argymhell bod modd i’r plant hyn fod yn ddiogel, hyd yn oed o fod yn fwy hyblyg gyda’r rheolau pellter 2 fetr, a threfnu seddau fel bod y plant i gyd yn wynebu i’r un cyfeiriad.
6. Mae cadw rhywfaint o bellter rhwng plant oedran uwchradd yn parhau i fod yn bwysig gan ei bod yn debygol bod angen iddynt leihau eu cysylltiadau dyddiol 40-60% er mwyn eu diogelu rhag Covid-19 (1). Gellid gwneud hyn drwy sicrhau pellter cymdeithasol o 2 fetr a/neu eu trefnu’n grwpiau dosbarth/blwyddyn i osgoi cymysgu, er mwyn haneru eu cysylltiadau agos dyddiol yn gyffredinol (sgyrsiau wyneb yn wyneb o 3 gair o leiaf, neu gyswllt corfforol). Mae’r gwaith ymchwil yn dangos, ar gyfartaledd, y bydd 20 o gysylltiadau dyddiol o fewn y grŵp 11-20 oed ac, felly, o leihau hynny 50%, byddai’r cysylltiadau agos dyddiol yn cael eu cwtogi i ryw 10.
7. Mae plant oedran uwchradd yn debygol o fod angen lleihau eu cysylltiadau dyddiol ryw 40-60% er mwyn eu diogelu rhag COVID-19⁷. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau pellter cymdeithasol o 2 fetr a/neu eu trefnu’n grwpiau i osgoi cymysgu (rydym yn aros am ddata ychwanegol ynghylch hyn). Ar gyfartaledd, bydd 20 o gysylltiadau dyddiol gan blant a phobl ifanc 11-20 oed. O leihau hynny 50%, byddai’r grwpiau yn cynnwys hyd at ryw 10.
8. Dylai’r broses o lacio mesurau ddigwydd mewn ffordd resymegol, gan fod hyn yn darparu naratif cyhoeddus cryfach o’r manteision o ran iechyd, yn gymdeithasol ac o ran addysg plant. Yn ogystal, mae’n anodd dad-wneud newidiadau⁸.

² [www.thelancet.com/journals/laninf/article/PIIS1473-3099\(20\)30371-6/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/laninf/article/PIIS1473-3099(20)30371-6/fulltext)

³ link.springer.com/article/10.1007/s00431-020-03683-8

⁴ Crynodeb o dystiolaeth RCPCH 30 Mehefin 2020 <https://www.rcpch.ac.uk/resources/covid-19-research-evidence-summaries#transmission>

⁵ [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(20\)31483-5/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)31483-5/fulltext)

⁶ <https://www.rivm.nl/en/novel-coronavirus-covid-19/children-and-covid-19>

⁷ Ystyriaethau is-grwpiau SPI-B ac SPI-M SAGE

⁸ Papurau gan SPI-B

9. Mae’n hollbwysig ymgysylltu â rhieni/plant ac athrawon yn ogystal ag â grwpiau perthnasol eraill, a chydweithio â nhw wrth lunio polisi. Gall plant a phobl ifanc helpu yn y broses o rannu naratif a chefnogi ymyriadau.
10. Mae’n hanfodol bod gennym gynlluniau ymlaen llaw i agor ysgolion a chynllun wrth gefn i’w cau pe bai angen, ynghyd â chynlluniau i reoli unrhyw glwstwr achosion newydd.

Cyd-destun y DU

- Polisi Adran Addysg y DU yw agor ysgolion yn llawn i bob blwyddyn ym Medi 2020⁹, gan barhau i ddilyn mesurau rheoli corfforol, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo’n bosibl, ac â phwyslais ar grwpiau dosbarth er mwyn lleihau nifer y cysylltiadau dyddiol. Disgrifir y rheolaethau fel rhai ‘atal’ ac ‘ymateb’. Ni chyhoeddwyd papur tystiolaeth hyd yma i nodi’r niferoedd a argymhellir ar gyfer y grwpiau dosbarth.
- Bydd yr Alban yn ailagor ysgolion ym mis Awst 2020 yn unol â’u tymor arferol. I ddechrau, wrth wneud cynlluniau ac ystyried y dystiolaeth ategol¹⁰, rhagwelwyd cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol ac yn y cartref, ynghyd ag amgylcheddau diogel, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr rhwng unigolion neu drefnu carfanau bach o gysylltiadau cyfyngedig¹¹. Mewn cyhoeddiad Gweinidogol dilynol¹², dynodwyd bod disgwyl i ddysgwyr fynd yn ôl i’r ysgol yn llawn amser o fis Awst 2020, heb fod angen i’r rheini o dan 12 oed/plant ysgolion iau gadw pellter cymdeithasol, ar yr amod bod y cyfraddau heintio yn y gymuned yn isel, bod trefniadau profi, olrhain a diogelu effeithiol ar waith, a bod yna fesurau diogelu/asesiadau risg ar gyfer y rheini sydd mewn categori risg uwch, gan gynnwys staff. Ni chyhoeddwyd papur tystiolaeth hyd yma i gefnogi’r newid hwn.
- Bydd ysgolion Gogledd Iwerddon yn dechrau ar 24 Awst 2020 i Flynyddoedd 7, 12 ac 14, a phob plentyn sy’n agored i niwed. Bydd pob plentyn arall yn dychwelyd ar ddechrau’r tymor arferol ym mis Medi. Rhagwelir dull dysgu cyfunol, gydag o leiaf 40% o amser wyneb yn wyneb yn yr ysgol gynradd a 30% o amser wyneb yn wyneb yn yr ysgol uwchradd. Ni fydd disgwyl i blant cyn-ysgol gadw pellter cymdeithasol, a bydd pob plentyn hyd at flwyddyn 14 yn cadw pellter cymdeithasol o 1 fetr, gan greu ‘swigod diogelwch’ lle bo’n bosibl, er na nodwyd faint o ddysgwyr y dylai’r rhain eu cynnwys. Bydd oedolion yn cadw pellter o 2 fetr oddi wrth oedolion eraill a phlant. Ochr yn ochr â’r mesurau hyn, rhagdybir y bydd yna system profi a monitro lle bydd rhywun yn arddangos symptomau. Mae papur tystiolaeth ategol ynghlwm¹³.

⁹ Adran Addysg y DU 2 Gorffennaf 2020 [Guidance for full opening: schools - GOV.UK](#)

¹⁰ Llywodraeth yr Alban 26 Mai 2020 [Microsoft Word - Scientific Evidence Schools and ELC](#)


¹¹ Llywodraeth yr Alban 28 Mai 2020 [Coronavirus \(COVID-19\): strategic framework for reopening schools, early learning and childcare provision - gov.scot](#)

¹² Llywodraeth yr Alban 23 Mehefin 2020 [Coronavirus \(COVID-19\): statement by the Deputy First Minister on re-opening of schools - gov.scot](#)

¹³ Llywodraeth G Iwerddon 24 Mehefin 2020 [Education Restart - Paper summarising the scientific evidence on Coronav... 0.pdf](#)

Atodiad A – Eitemau a drafodwyd gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o ran Ysgolion:

- Dylem fod yn symud oddi wrth y duedd o edrych ar effaith agor ysgolion yn unig ar R_t , heintiau a marwolaethau, a thuag at edrych ar bopeth ar draws y pecyn ymyriadau a 'gwerth R_t '. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion ar y cyd â phenderfyniadau ynghylch llacio mesurau ehangach cadw pellter cymdeithasol. Mae angen penderfynu pa fesurau i'w blaenoriaethu o ran eu llacio a bydd hi'n bwysig ystyried faint o hyblygrwydd fydd yna i agor ysgolion ym mis Medi wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol eraill gael eu llacio nawr.
- Pan fo gwahanol ymyriadau ymddygiadol a chymdeithasol yn cael eu llacio, rydym yn gwybod bod yr effaith gronol ar R_t yn golygu nad oes llawer o le i atal R_t rhag mynd dros 1. Amlygir hyn yn y cromliniau risg (enghreifftiau isod – mae'r rhain bellach wedi'u diweddarau ar wahân i gynnwys ffactorau amgylcheddol ac nid yw'r diwygiadau wedi'u cynnwys yma).



- Wrth i fesurau eraill gael eu llacio, rhybuddiodd aelodau mai'r risg uniongyrchol yw na fydd gennym hyblygrwydd ar ôl, yn sgil effeithiau disgwylidig y camau llacio ym mis Mehefin/Gorffennaf. Byddai hyn yn golygu y bydd yn anodd iawn, os yn bosibl o gwbl, erbyn mis Medi i gadw R_t o dan 1 gydag ysgolion ar agor yn llawn. Efallai na fydd effaith agor ysgolion ar R_t yn fawr, ond gall fod yn ddigon i fod yn arwyddocaol.
- Dylid penderfynu nawr na fydd ysgolion, pan fyddant yn ailagor, yn cau eto os bydd cyfyngiadau yn cael eu hailgyflwyno. Bydd hyn yn cyfyngu ar y syniad o 'olaf i mewn, cyntaf allan'. Dylai'r naratif ganolbwytio ar 'rydym wedi gwneud paratodau i alluogi ysgolion i ddychwelyd yn llawn amser o hyn ymlaen'.
- Bydd angen gwneud y penderfyniadau hyn nawr er mwyn gwarchod y maes hwn ac o ystyried yr oedi yn y data. Gallai hyn olygu y byddai angen dadgyflwyno ymyriadau eraill er mwyn caniatáu i ysgolion ailagor. Ni fyddai hyn yn cael ei dderbyn yn hawdd gan y cyhoedd na'r sectorau perthnasol (er enghraifft, y sector lletygarwch) a gallai cydymffurfiaeth fod yn is nag yr oedd cyn dechrau llacio. Mae angen llacio cyfyngiadau mewn ffordd resymegol.
- Felly, mae angen newid y naratif ynghylch ailagor ysgolion a'i osod ochr yn ochr â chamau llacio eraill. Awgrymodd aelodau y gellid cyfleu'r senarios mewn ffordd ansoddol sy'n cyflwyno penderfyniad amodol ynghylch agor yn llawn yn seiliedig ar yr hyn sy'n digwydd yn y ddeufis nesaf. Fel arall, gellid defnyddio safbwynt amgen sef y bydd yn rhaid i'r llywodraeth drwyddi draw flaenoriaethu agor ysgolion dros gamau i lacio cyfyngiadau eraill fel y bydd hyblygrwydd erbyn mis Medi i agor ysgolion.

1. Pwysigrwydd cadw gwyliadwriaeth a rhagbaratoi ar gyfer achosion/brigiadau a dylid cynllunio ar eu cyfer nawr

- Mae angen ystyried nawr strategaethau ar gyfer cau ysgolion eto pe bai cynnydd yn nifer yr achosion, gan egluro sut y byddai hyn yn cael ei wneud a’i gyfathrebu’n glir i rieni/ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Bydd angen system dda o ran cadw gwyliadwriaeth a Phrofi, Olrhain, Diogelu er mwyn nodi achosion a brigiadau sy’n dod i’r amlwg. Bydd angen ymateb i’r rhain yn gyflym. Bydd yr ymateb i achosion unigol (h.y. cau dosbarthiadau a phrofi’r ysgol) yn wahanol i’r ymateb i frigiadau (h.y. cau ysgolion ac edrych ar gartrefi a gweithleoedd cysylltiedig â’r ysgolion). Rhaid datblygu hyn ar y cyd â gwasanaethau lechyd y Cyhoedd Lleol a’r Cyd-bwyllgor Bioddiogelwch/dangosyddion sbarduno cyfyngiadau.

2. Bydd hi’n bwysig hybu hyder ynghylch rôl plant o ran trosglwyddo’r feirws, yn ogystal â sut rydym yn cyfleu hyn i rieni/disgyblion/athrawon/undebau ac eraill.

- Mae llawer o’r gwaith modelu yn defnyddio tybiaethau ceidwadol; bod plant yn ei drosglwyddo ar yr un gyfradd ag oedolion. Mae hyder cynyddol nad yw plant yn gwneud hynny. Ni welsom gynnydd yn nifer yr achosion yn sgil agor ysgolion ym mis Mawrth ac mae llai o achosion nawr. Gall tystiolaeth o brofiad gwledydd eraill fod o gymorth i ddeall hyn.
- Gofynnodd Adran Addysg y DU am eglurhad pellach o’r sefyllfa hon ac i hyn gael ei adlewyrchu yn natganiadau consensws SAGE i helpu i lunio’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dealltwriaeth o’r sefyllfa o safbwynt polisi.
- Mae’n bosibl bod mwy o risg o drosglwyddo rhwng oedolion ger gatiau’r ysgol na chan blant ac, o ran oedolion yn gyffredinol (y gweithlu, rhieni/gofalwyr), bydd angen gofal ynghylch y mynediad a gânt i ysgolion, yn ogystal â’r trefniadau o fewn ysgolion.
- Byddai’n fuddiol iawn siarad yn nhermau lefelau risg wrth roi gwahanol senarios agor yn eu cyd-destun – gan drosi mynychder R yn risg y gellir wedyn ei defnyddio ar draws ymyriadau. Mae’r risg gymharol o blentyn yn mynd i’r ysbyty gyda COVID-19 gan ei fod wedi dychwelyd i’r ysgol yn fach (megis cael ei daro gan fellten). Y risg fwy yn sgil ailagor ysgolion yw’r cynnydd mewn rhwydweithio y mae’n ei alluogi.
- Y sail dros ddefnyddio risg yw nad yw’r cwestiwn ynghylch agor ysgolion yn ymwneud â’r risg i blant, ond yn ymwneud yn fwy â’r risg i’r wlad o orfod mynd yn ôl o dan gyfyngiadau. Roedd aelodau yn awyddus i hyn gael ei bwysleisio.
- Nid yw swigod/grwpiau cyfyngedig yn beth syml mewn ysgolion uwchradd (o’u cymharu ag ysgolion cynradd lle mae’n fwy syml o safbwynt ymarferol) – o ystyried bod y plant yn symud rhwng dosbarthiadau gwahanol a’r ymddygiad a gysylltir â’r cohort hwn. Mae SAGE wedi defnyddio swigod i ddisgrifio aelwydydd o’r blaen, felly ni fyddai’n ddefnyddiol ei ddefnyddio yng nghyd-destun ysgolion.
- Dylid ystyried defnyddio’r haf er mwyn gallu gwneud defnydd gwell o fannau awyr agored tra mae’r tywydd yn braf.

3. Beth, os unrhyw beth, y gallwn ei ddysgu o ysgolion sydd ar agor o fis Mehefin ymlaen?

- Nid yw mis yn ddigon o amser i edrych ar yr effaith yn fanwl iawn ond dylai ein galluogi i ddangos nad yw plant o bosibl yn ffactor mor fawr â hynny o ran trosglwyddo'r feirws. Mae angen gofal, serch hynny, ynghylch sut i fframio rôl plant – mae'n heriol gan y bydd agor ysgolion yn helpu i ddeall yn well rôl plant o ran trosglwyddo – dylid ei gyflwyno fel hyn yn hytrach na'i fframio fel ffordd o arddangos damcaniaeth.
- Mae hefyd angen inni gydnabod sut mae ysgolion yn gweithredu'r canllawiau yn wahanol a pha effaith y mae hyn yn ei chael ar rieni/disgyblion a hyder athrawon – mae holl adeiladau/amgylcheddau ysgolion yn creu eu heriau eu hunain. A fyddai hi o leiaf yn bosibl rhoi disgrifiad o sut y gallai/dylai Ysgol Ddiogel o safbwynt C-19 gael ei hagor (e.e. plant yn cyrraedd ar adegau gwahanol, systemau unffordd, cadw pellter cymdeithasol (yn ôl grŵp oedran), ond nid ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, maint dosbarthiadau/swigod (gan ddibynnu ar faint yr adeilad), masgiau ai peidio, golchi dwylo, ac yn y blaen).
- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu methodoleg dangosyddion sbarduno cyfyngiadau i fonitro effaith ailagor ysgolion ar drosglwyddo'r feirws ac mae wrthi'n cael ei datblygu.
- Gallai astudiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnig cyfleoedd dysgu pellach yn yr amserlen sydd gennym, a hefyd, o bosibl, astudiaeth lechyd Cyhoeddus Lloegr sy'n cael ei chynnal yn nwyrain Llundain.
- Cymariaethau rhyngwladol – mae absenoldeb brigiadau cysylltiedig ag ysgolion mewn gwledydd sydd nawr ar agor yn ategu'r safbwynt ynghylch rôl plant o ran trosglwyddo'r feirws. Cysylltiadau â Sefydliad Iechyd y Byd.

4. Cynnwys pawb perthnasol pan fo'n bosibl wrth weithredu

- Pwysigrwydd darparu llwyfan dysgu ar-lein cenedlaethol ochr yn ochr ag unrhyw senario er mwyn llenwi bylchau mewn addysg a rhoi sicrwydd – yn enwedig wrth ystyried penderfyniad ymatebol i gau ysgolion ac o ran disgyblion neu weithwyr agored i niwed. Gallai dysgu cyfunol helpu i gynnal hyblygrwydd yn yr addysg a geir. Mae budd ychwanegol i hyn, sef galluogi staff sydd efallai angen gwarchod eu hunain, neu angen cadw draw o'u gwaith gan fod aelodau o'u teulu yn gwarchod eu hunain, i fod yn rhan o gyd-destun sydd wedi'i ddiffinio'n glir.
- Pwysigrwydd strategaethau cyfathrebu cynnar a chynhwysfawr a chynnwys rhieni/plant ac athrawon a rhanddeiliaid eraill megis undebau wrth gydgyhyrchu cynlluniau. Gallai ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a phlant ac athrawon/arweinwyr ysgolion ddarparu tystiolaeth gref ar gyfer trafodaethau â'r undebau. Mae undebau yn bwysig, ond efallai ymhellach yn y broses a phan fydd cyngor wedi'i ddatblygu.
- Bydd asesiad neu ganfyddiad rhieni ac athrawon o risg mewn ysgolion yn hanfodol i lwyddiant senarios agor ehangach. Bydd amrywiadau lleol yn y dull gweithredu hefyd yn effeithio ar hyder/arferion.
- Canfyddiad ac ymateb unigolyn i risg ymysg y boblogaeth gyffredinol o'i gymharu â risg i'w deulu ei hun, h.y. neiniau a theidiau yn gweld wyrion. Nododd y grŵp fod hyn yn ymwneud â beth mae pobl yn rhoi'r gwerth mwyaf arno a sut y byddant yn ymateb i'r canllawiau a ddarperir – er ei bod yn bosibl na fydd gan rai ddewis o ran sut maent

yn ymateb yn sgil trefniadau gofal plant/gwaith. Mae llawer mwy o sylw ar y cyntaf ond mae’r ail yn arwyddocaol hefyd.

- Gellir hefyd feithrin sicrwydd drwy gynllunio ar gyfer cau ysgolion eto – sut y byddai hyn yn gweithio a beth fyddai rôl profi yn hyn.

Pwyntiau ychwanegol a gafodd sylw

- Prifysgolion – cwestiwn llety a symud. Gwahaniaethau mawr o ran sut mae prifysgolion yn bwriadu trefnu eu haddysg.
- Mae gan y sector addysg bellach, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ôl-19, lawer o wahanol gyrsiau a mathau o addysgu. Hefyd, mae llawer o’r addysgu yn ymarferol.
- Sector y blynyddoedd cynnar – awyddus i gydweithio gan fod eu cymhelliad nhw i ailagor yn wahanol i eraill.
- Sut mae ystyried cludiant i/o’r ysgol a’r effeithiau o ran heintio? Y cwestiwn yw p’un a oes angen addasu’r polisi cludiant. Mae cysylltiad pwysig rhwng hyn a’r risg.
- Peidio â chysylltu dychwelyd i’r ysgol ag arbrofi neu dreialu.

Gwaith pellach

- Mae dadansoddwyr Adran Addysg y DU wedi defnyddio’r egwyddorion a amlinellir yn y drafodaeth hon, ac adborth pellach gan is-grwpiau SAGE, i lunio ystod o gwestiynau ymchwil y gallai’r atebion iddynt ddatblygu ein dealltwriaeth a helpu’r rheini sy’n creu polisi. Cyflwynwyd y rhain fel comisiwn i SAGE ar 2 Gorffennaf 2020.